1601

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Llandygái



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



Eglwys Tygái Sant, Llandygái o'r de

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Llandygái

Rhif Prosiect G2675

Rhif yr Adroddiad 1601

Paratowyd ar gyfer Cyngor Gwynedd

Mehefin 2021

Ysgrifennwyd gan Andrew Davidson a Joanna Davidson

Cyhoeddwyd gan
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth,
Bangor, Gwynedd LL57 2RT

Cadeirydd — David Elis-Williams MA(Oxon), MSc, CPFA
Prif Archaeolegydd — Andrew Davidson, BA, MCIfA, FSA

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn Gwmni Cyfyngedig (Rhif Cof. 1180515) ac yn Elusen (Rhif Cof. 508849)

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad** 1

1.2 Cydnabyddiaeth

**2 Hanes cefndirol** 1

2.2 Hanes y pentref

**3 Lleoliad a chymeriad y pentref** 5

3.1 Lleoliad

3.2 Cymeriad

3.3 Dynodiadau

**4 Disgrifiad o'r Ardal Gadwraeth** 8

**5 Gwelliannau a argymhellir** 23

**6 Newidiadau a argymhellir i'r Ardal Gadwraeth** 23

**7 Ffynonellau** 24

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma yn cynnwys canlyniadau gwerthusiad o Ardal Gadwraeth Llandygái gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) sydd wedi ymgymryd â'r gwaith ar ran Cyngor Gwynedd.

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu pa ardaloedd fyddai'n ddymunol eu cadw a'u gwella er mwyn eu dynodi fel ardaloedd cadwraeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai awdurdodau lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yn yr ardal yma gan ychwanegu mwy o gadwraeth ble fo'n briodol.

Mae'r ddogfen hon yn arfarnu'r ardal gadwraeth bresennol, gan ddarparu trosolwg o'i hanes, pensaernïaeth a'i chyflwr, ac yn awgrymu argymhellion priodol.

### 1.2 Cydnabyddiaeth

Eryl Williams a Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd, sbardunodd y prosiect, gan ddarparu cymorth hael a gwybodaeth i helpu gyda'r gwaith. Bu Dr John Llewellyn Williams hefyd yn garedig iawn yn rhoi cymorth a chyngor yn ystod y prosiect.

# 2. Hanes cefndirol

Mae pentref Llandygái oddeutu milltir i'r de-ddwyrain o ddinas Bangor, ym mhlwyf Llandygái, ac i'r de-orllewin o eglwys y plwyf, sydd ar gyrion y pentref yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r anheddle presennol yn bentref ystâd wedi ei gynllunio a osodwyd allan yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond sydd wedi ei leoli mewn ardal o gryn bwysigrwydd archeolegol a hanesyddol. Lleolir Castell y Penrhyn, sy'n tra arglwyddiaethu ymhob ffordd ar yr anheddle, i'r gogledd o'r pentref gan edrych i lawr arno.


Cafodd yr ardal i'r gorllewin (o dan Stad Ddiwydiannol Llandygái) ei chloddio yn helaeth yn yr 1960au, ac i'r de o dan Barc cyfagos Bryn Cegin yn 2000.  Dangosodd y gwaith cloddio dirwedd archeolegol dwys, gyda thystiolaeth fod pobl wedi preswylio yma ers y cyfnod Neolithig. Roedd y strwythurau a'r nodweddion a gloddiwyd yn cynnwys anheddle Neolithig sylweddol o dai 'neuadd', hengorau a sawl pydew a chasgliad mawr o grochenwaith.  Darparodd olion sylweddol o'r Oes Efydd ac anheddle cyn-hanesyddol mwy diweddar, yn bennaf ar ffurf tomenni llosg a thai crynion, dystiolaeth o boblogaeth oedd yn ffynnu yn yr ardal. Parhaodd yr aneddleoedd i gael eu defnyddio drwy'r cyfnod Rhufeinig, ac mae mynwentydd yn awgrymu fod pobl wedi byw yno yn y cyfnod Canoloesol Cynnar. **1**




**1**
Gwaith cloddio a wnaed ymlaen llaw cyn y parc busnes newydd, Llandygái, yn dangos tyllau pyst adeilad Neolithig.

**Ffigwr 1**
Ardal Gadwraeth Llandygái

Mapiau cyfres sirol Arolwg Ordnans, ail argraffiad, 1900




Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

**Ffin yr Ardal Gadwraeth**

0 100
METRAU

Dywedir i eglwys gael ei sefydlu gan Tygái Sant yn y bumed ganrif, er bod yr enw yn ymddangos i fod yn gyfuniad o Tŷ a'r enw personol Cái. Mae'r eglwys bresennol yn dyddio i tua 1330, er mai ychydig iawn ohoni o'r adeg honno sy'n parhau. Ail-adeiladwyd y gangell a'r transeptau yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac wedyn yn 1853 cafodd yr eglwys ganoloesol ei hadfer yn sylweddol a'i hymestyn gan bensaer yr esgobaeth, Henry Kennedy. Mae'r eglwys ar ffurf croes gyda thŵr canolog. Mae yno nifer o henebion pwysig, yn cynnwys beddrod alabaster y credir sydd er cof am Syr William Griffith (m. 1506) a'i wraig. Mae hwn yn adeilad Rhestredig Gradd II*.

Yn y drydedd ganrif ar ddeg rhoddwyd Penrhyn yn anrheg i Goronwy ap Ednyfed, mab Ednyfed Fychan, gan Dywysogion Gwynedd ac yna aeth drwy ei deulu a'i etifeddu gan Gwilym ap Gruffydd. Rhwng 1410 a 1431 adeiladodd yntau faenordy caerog gyda thŵr a chapel cyfagos. Bu'r adeiladau hyn yn sefyll tan 1786 gan fod yr ystâd yn parhau i dyfu o ran ei maint a'i dylanwad.

Etifeddwyd llawer o'r stad gan Syr Richard Pennant yn 1785 ac fe brynodd yntau eiddo eraill, ac ail-uno rhannau o'r stad oedd wedi mynd ar wahân. Daeth y teulu â chyfoeth i'r ardal drwy eu hystadau siwgr yn India'r Gorllewin gan wedyn gynyddu'r cyfoeth yma yn aruthrol gyda'r elw a wnaed o'u chwareli llechi yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwnaeth Pennant welliannau sylweddol i'r stad, y ffermydd a'r chwareli. Penododd Benjamin Wyatt yn 1786 i'w gynorthwyo, brawd James a Samuel, fel ei asiant. Bu farw Benjamin yn 1818, ar ôl dylunio llawer o adeiladau newydd ar y stad, ac fe wnaeth ei fab James Wyatt (1795-1882) barhau gyda'i waith gan ymddeol yn 1859.

Erbyn 1780 roedd y tŷ canoloesol wedi ei drawsffurfio ar gyfer Richard Pennant gan y pensaer Samuel Wyatt yn adeiladwaith gothig caerog, gan gadw rhan o'r neuadd ganoloesol a'r esgyll croes. Ehangwyd y tŷ yn 1800. Bu farw Richard Pennant yn 1808, a gadawodd y stad i gefnder, George Hay Dawkins- Pennant, ac wedi marwolaeth y Fonesig Penrhyn yn 1816 fe wnaeth gymryd drosodd y gwaith o reoli'r stad. Roedd Dawkins-Pennant yn gyfrifol am adeiladu'r tŷ presennol, a ddyluniwyd gan Thomas Hopper, a'i adeiladu rhwng 1822 a 1838.

Yn ystod yr amser yma sefydlwyd tir y parc o amgylch y tŷ ymhellach gan ei amgáu gyda waliau cerrig, ac adeiladu mynedfeydd newydd. Roedd hyn yn cynnwys porthordy newydd yn y fynedfa ger yr A5. Dyluniwyd y 'Grand Lodge' mawreddog yma i gyd-fynd â'r tŷ, ac mae'r bwa addurnedig trwm gyda'r tyredau bylchfuriau bob ochr yn sefyll ger y ffordd i'r prif dŷ. Fe wnaeth Richard Pennant benodi Benjamin Wyatt, brawd Samuel, fel asiant yn 1786, ac fe wnaeth yntau ddylunio a gwella ffermdai newydd ac adeiladau fferm. Bu hefyd yn rheoli'r chwareli llechi, gan eu gweddnewid o fod yn chwareli bychain unigol i fod yn ddiwydiant proffidiol enfawr. Adeiladodd reilffordd haearn i gludo'r llechi i'r porthladd, gan wella'r porthladd ei hun.

Ar ôl ei farwolaeth yn 1818, parhaodd ei fab James Wyatt gyda'i waith gan ddylunio adeiladau newydd ar ran y stad tan ei ymddeoliad yn 1859. Mae'n debyg mai James oedd yn gyfrifol am osodiad pentref y stad yn Llandygái, a dyluniad y tai.

### 2.2 Hanes y pentref

Mae tystiolaeth map cyn dyddiad sefydlu'r pentref yn dangos plethwaith o chwe ffordd yn cwrdd ger giât yr eglwys. Cafodd y rhain eu hail-adlinio yn ystod y gwaith ar y parc, a phan sefydlwyd llwybr ffordd Telford tua 1815. Roedd anheddiad bychan yng nghyffordd y ffordd gynnar, ac fe gofnodwyd bod tafarn yma hefyd. Yn 1808 adeiladwyd yr ysgol gyntaf gan Anne Susannah, gweddw Richard Pennant. Erbyn 1840 roedd ffyrdd newydd wedi eu gosod ar gyfer y pentref, er nad oedd y cynllun terfynol yn dilyn y gosodiad cyntaf a gynlluniwyd. Efallai bod marwolaeth Dawkins-Pennant wedi dylanwadu ar y newid yma ynghyd â dyfodiad yr etifedd newydd, er i James Wyatt, asiant a phensaer, barhau yn ei swydd. Adeiladwyd y pentref yng nghanol yr 1840au, pan adeiladwyd y gosodiad presennol, ac adeiladwyd ysgol newydd ar ochr arall yr eglwys i'r ysgol gynharach. Parhaodd ambell lain yn wag, ac adeiladwyd arnynt yn y diwedd yn yr 1970au. **2**




**2**
Eglwys Tygái Sant, Llandygái, gyda'r gofeb siâp pyramid i'r Wyatts yn agos at yr eglwys.

**Ffigwr 2**
Darn o fap o ran isaf Plwyf Llandygái, wedi ei fapio gan John Jones, 1840, yn dangos y cynigion cychwynnol ar gyfer pentref y stad.

(Prifysgol Bangor, Papurau Ychwanegol Penrhyn 2214)



# 3. Lleoliad a chymeriad y pentref

### 3.1 Lleoliad

Mae pentref Llandygái yn bentref stad sydd o'r neilltu ac i'r de o'r rhodfa i Gastell Penrhyn. Mae ei leoliad mewn perthynas â'r castell yn nodweddiadol o bentrefi stadau, sy'n aml yn cael eu dylunio i gyd-fynd â chartref y perchennog, gan sicrhau nad yw'r pentrefwyr i'w gweld o ffenestri'r prif dŷ. Lleolir y pentref ar wastatir arfordirol tonnog sy'n dir pori amaethyddol da, a gafodd ei wneud yn barc yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae afon Ogwen, i'r gorllewin, yn llifo i Draeth Lafan gydag afon Cegin yn y dwyrain yn mynd i'r môr yn Aber Cegin (Porth Penrhyn). Mae'r ddaeareg oddi tanodd yn lleidfeini gwaddodol Ordoficaidd, gyda chlog glai yn gorchuddio'r mwyafrif. Saif y pentref y tu allan i'r parc caerog, ychydig i'r de o'r Prif Borthordy, gyda mynedfa i'r pentref wedi ei ddylunio i arddangos golygfeydd godidog o dai'r stad sy'n arwain i'r dwyrain oddi ar ffordd Telford.

Gosodwyd lleiniau'r pentref i'r gorllewin o'r eglwys, a rhwng yr eglwys a ffordd Caergybi. I'r de, caiff ei ffinio gan gromlin y cyn dollffordd i Dalybont a Chonwy, ac i'r dwyrain a'r gogledd gan diroedd y castell. Mae'r blaengwrt a'r porthordy i'r castell yn ffurfio'r terfyn gorllewinol. Mae'r pentref yn cynnwys rhwydwaith o lonydd sy'n canolbwyntio ar y brif ffordd i gyfeiriad DDO-GGD sy'n arwain o ffordd Caergybi at Eglwys Tygái Sant. Mae ail ffordd yn mynd o'r de i'r ffordd hon, bron i gyfeiriad gogledd-de, lawr at Ffordd Talybont. Mae cyffordd 'T' yn arwain o'r ffordd yma, yn gyfochrog â'r brif stryd. Yr unig ffordd sy'n mynd drwy'r pentref (er ei bod bellach wedi ei chau i draffig) yw'r un sy'n mynd ar hyd ochr ddeheuol y fynwent ac yn parhau dros Bont Talybont, pont restredig drawiadol sy'n croesi afon Ogwen fymryn y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth. Adeiladwyd y bont tua 1820 ac roedd yn rhan o waith sefydlu'r parc.

Mae gan y pentref waliau rhannol gyda wal uchel y parc o gerrig rwbel yn ffurfio'r terfyn gyda pharc y castell, a wal sylweddol ar hyd ymyl ffordd Talybont. Mae natur gysgodol y safle a'r ffaith bod coetir aeddfed yn ei amgylchynu yn rhoi cymeriad deiliog, gwyrdd i'r pentref gyda gerddi aeddfed sy'n cael eu trin ynghyd â choed sefydledig.

Yn ôl map stad y Penrhyn o tua 1769, enw'r cae ble ehangodd y pentref iddo wedyn oedd Cae'r Ddôl. Roedd cyffordd i chwech o ffyrdd ble mae'r sgwâr bellach, gyda grŵp bach o dai o amgylch y gyffordd gan gynnwys tafarn. Adeiladwyd Ffordd Caergybi ychydig i'r gorllewin ac adeiladwyd y pentref newydd rhwng yr eglwys a'r ffordd newydd, gan gynnwys ac adeiladu dros y tai cynharach. Dechreuwyd gosod y pentref sy'n rhannol furiog yn yr 1840au, gyda'r tai cyntaf yn cael eu hadeiladu i'r de-orllewin o'r sgwâr, o gwmpas Rhif 10. Ar fap 1841 gellir gweld dwy ffordd; gyda'r brif ffordd yn mynd at yr eglwys a'r ysgol, ac un yn arwain i'r DDO tuag at ffordd Talybont, er nad yw i'w weld yn ymuno â hi. Gellir gweld bod y tir ar hyd ymyl y ffordd wedi ei rannu'n leiniau. Ni ddilynwyd y gosodiad cynnar fel y bwriadwyd, efallai oherwydd marwolaeth George Hay Dawkins-Pennant yn 1840. Cafodd y pentref wedyn ei osod allan dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. **Ffigwr 2.**


### 3.2 Cymeriad

Roedd y tai yn bennaf yn dai ar arddull Tuduraidd Darluniaidd, gyda thâl meini serth. Fel y byddech yn ei ddisgwyl llechi sydd ar y toeau ac fe gafodd nifer o dai eu dylunio gyda myrdd o ffenestri dormer talcennog sy'n cyfrannu at eu cymeriad gwerinol. Cynlluniwyd y mwyafrif fel tai pâr, gyda'r ddau hanner yr un fath. Mae'r waliau o gerrig rwbel lleol, un ai gyda chwipiad garw neu chwipiad gro, er bod nifer llai heb chwipiad ac yn dangos waliau o haenau bras o gerrig rwbel lleol. Mae'r simneiau yn addurniadol, gyda chyrn tal ar ongl mewn arddull Tuduraidd, o frics neu gerrig. Mae nifer o bortshys pren bach agored gyda tho un rhediad wedi goroesi. Mae gan fwyafrif y pyrth linteri llorweddol, er bod gan Rifau 21 a 22 bedwar bwa canolog o galchfaen Ynys Môn. Mae gan lawer o'r tai ffenestri bae, gyda physt ffenestri carreg neu bren. Mae'r ffenestri eraill yn ffenestri casment tri neu ddau baen sy'n agor. Dros y degawdau mae'r mwyafrif wedi cael eu hadnewyddu.

Ychydig iawn mae'r pentref wedi newid o ran ei osodiad dros y blynyddoedd, ac eithrio ychydig iawn o fewn-lenwi. Mae'r tai eu hunain wedi gweld mwy o newidiadau, ond mae cymeriad hanfodol y pentref stad yn parhau.

**Ffigwr 3**
Ardal Gadwraeth Llandygái

Ffiniau'r ardal ac Adeiladau Rhestredig




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

Ffin yr Ardal Gadwraeth

Adeiladau Rhestredig

0 100
METRAU

### 3.3 Dynodiadau

**Mae'r dynodiadau isod yn berthnasol i'r pentref.**

*Henebion Cofrestredig*
Dim
(Noder: CN153 Heneb Hengor a Chwrsws yn sefyll i'r gorllewin o'r A5, gyferbyn â'r pentref.)

*Ardal Gadwraeth*
Llandygái

*Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*
Dyffryn Ogwen (HLW Gw 10)

*Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru*
Castell Penrhyn (PGW Gd 40 GWY) Gradd II*
(Tir ar y ffin gogleddol yn unig).

*Adeiladau Rhestredig*
Saif yr adeiladau rhestredig a ganlyn yn yr Ardal Gadwraeth.

| CYF | Rhif | Gradd | Enw |
|---|---|---|---|
| 64306 | 23343 | II | Arwydd cyfeiriol llechen |
| 11394 | 3661 | II* | Porthordy Mawreddog a muriau'r blaengwrt |
| 64227 | 23462 | II | 22, Llandygái, Bangor |
| 64184 | 23422 | II | Arfon Cottage |
| 64210 | 23421 | II | 7, Llandygái, Bangor |
| 64305 | 23461 | II | Rose Cottage |
| 64219 | 23423 | II | 8, Llandygái, Bangor |
| 64290 | 23424 | II | The Anchorage |
| 64251 | 23463 | II | Hen Dŷ'r Ysgol |
| 64299 | 23429 | II | Neuadd Talgai |
| 64229 | 23399 | II | Pileri giât, giatiau, waliau a rheiliau i'r fynwent |
| 6958 | 3657 | II* | Eglwys Tegai Sant |
| 64244 | 23366 | II* | Cofeb Wyatt yn Eglwys Tegai Sant |
| 64297 | 23428 | II | Ysgol Llandygái a Thŷ'r Ysgol |

Gweler hefyd Ffigwr 3

Gellir gweld manylion llawn am y rhain a'u lleoliadau ar wefan Cof Cymru:
https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records

**4**
Y Porthordy Mawreddog, wedi'i ddylunio neu wedi ei dylanwadu gan Hopper a'i adeiladu yn yr 1820au i gael mynediad i'r tŷ newydd.

**5**
Ardal fechan o ardd y tu fewn i wal y parc.

**6**
Ar hyd ochr y rhodfa i'r Porthordy Mawreddog a thu allan i'r wal uchel sy'n amgylchynu'r pentref mae'r gofeb ryfel.

# 4. Disgrifiad o'r Ardal Gadwraeth

Sefydlwyd yr ardal gadwraeth yn 1974 ac ers hynny mae wedi ehangu i gynnwys ardal ychwanegol (a ddefnyddir ar hyn o bryd fel gardd lysiau) ger y Porthordy Mawreddog, ac estyniad i'r fynwent yn yr ugeinfed ganrif, a argymhellwyd yn yr asesiad cadwraeth blaenorol.

Mae'r brif fynedfa i'r pentref i'r de o'r blaengwrt mawreddog i'r castell. Mae'r Porthordy Mawreddog yn bendant yn Normanaidd o ran cymeriad ac yn symbol o rym, gyda'r anheddle domestig yn ei gysgod. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnal a chadw'r blaengwrt yn dda. Ceir yma lawntiau taclus gyda dau amgaead carreg addurnedig wedi eu marcio gan waliau cerrig isel oedd unwaith â rheiliau addurnedig. Bob ochr i'r porthordy ceir dwy ffynidwydden Douglas enfawr, gyda'r un ar y chwith wedi cael triniaeth sylweddol ond mae cyflwr y ddwy yn drawiadol iawn. Lluniwyd mur uchel y parc o haenau bras o gerrig nadd gyda chopa o gerrig brig a bwtresi hirsgwar. **4**

Tu fewn i'r parc mae llain drionglog, a ddefnyddir ar hyn o bryd fel gardd lysiau, sydd wedi ei gynnwys yn ddiweddar yn yr Ardal Gadwraeth. Mae hon yn ardd gynhyrchiol a phrysur, wedi ei chysgodi gan furiau'r parc i'r de a'r gorllewin a'r coetir amgylchynol. **5**


5

Yn y blaengwrt ac i'r dwyrain o'r brif rodfa, yn agos at wal y parc, mae obelisg carreg syml a godwyd yn 1954 fel cofeb ryfel i gofio am aelodau o deulu Douglas-Pennant a rhai o'r ardal fu farw yn y ddwy Ryfel Byd. Caiff yr ardal yma ei chadw'n dda ac mae torch i'w gweld yno. **6**


6


4




Mae'r wal derfyn yn parhau tua'r de ar ei huchder llawn tan y ceir gwrych celyn o uchder tebyg, sy'n cuddio wal isel, sy'n gwarchod gardd Rhif 1.

Yn ei dro, mae hynny yn arwain at y brif fynedfa i'r pentref, gyda'i physt giatiau carreg a llechi ar eu pen. Mae'r fynedfa yn ddeniadol gyda choed ffawydd copr mawr bob ochr a'r blwch post coch wedi'i osod yn y wal ar yr ochr dde. Ger hyn mae'r lloches bws pren a godwyd yn ddiweddar ac a ariannwyd gan y gymuned. **7 8 9**







**7**
Y fynedfa gymharol syml i'r pentref, wedi ei marcio gan ddau bostyn giât carreg efo llechi ar eu pen.

**8**
Saif y lloches bws newydd a ariannwyd gan y gymuned ychydig y tu allan i fynedfa'r pentref.

**9**
Yr olygfa yn edrych allan drwy'r fynedfa, gyda gwrychoedd uchel bob ochr.

**10**
Mae Rhif 1 Llandygái wedi ei newid yn sylweddol, er ei fod yn cadw at ei gynllun gwreiddiol.

**11**
Yn wreiddiol, roedd Rhif 2 yn ddau dŷ cymesur ac mae bellach wedi ei ymestyn i'r gorllewin, ond mae'r simneiau a'r talcenni yn helpu i gadw peth o'r agwedd wreiddiol.


10

Unwaith y byddwch y tu fewn i'r porth mae'r olygfa i'r chwith yn ddeniadol, gyda thai mawr wedi eu gosod oddi fewn i leiniau sylweddol.

Cafodd y cyntaf, Rhif 1 *Nilgiri*, ei newid yn sylweddol gyda phortsh mawr modern a ffenestri metel gwydr latis. Mae'r adroddiad blaenorol yn sôn bod y drychiad ochr i'w weld o flaengwrt y porthordy, ond erbyn hyn mae'r gwrych celyn yn ei guddio. **10**

Nid yw Rhif 2 wedi newid yn ddiweddar, er bod diffyg bariau gwydr a gorffeniad chwipiad gro i'r tŷ a'r pyst giatiau ddim yn nodweddion gwreiddiol. Mae yn dŷ mawr gyda phedair ffenestr bae, gyda rhif un a thri yn ymwthio allan gyda thalcenni mawr, y cyntaf yn cynnwys ffenestr fae, a'r olaf portsh. Mae ffenestri bae dau a phedwar yn cynnwys ffenestri dormer talcennog. Mae dwy simnai fawr, un wedi ei gosod i fewn o'r bae cyntaf, y llall ar y talcen dwyreiniol. Caiff ei amgylchynu gan ardd fawr gaiff ei hedrych ar ei hôl. Efallai fod bae 1 yn ychwanegiad mwy diweddar, ac yn wreiddiol roedd yn ddau annedd. **11**


11



Ar y dde, tu fewn i'r pyst giât mae pafin wedi ei ledu a lle parcio o flaen pedwar neu fwy o dai mwy diweddar, a adeiladwyd yn yr 1970au, ac nid ydynt yn cyd-fynd ag arddull y pentref. Mae dau fyngalo dormer bob ochr i ddau fyngalo pâr, gyda chwipiad gro ac ardal o waith carreg mewn arddull pafin clytiau anaddas yn y canol. **12**

Wrth barhau tuag at yr eglwys, mae'r lôn yn croesi'r brif stryd ar ongl sgwâr, gyda'r ochr ar y chwith wedi ei dorri a wal y parc yn y pen, sy'n rhoi golygfa ddiddorol o'r gerddi aeddfed oddi amgylch. Mae'r ochr arall wedi ei tharmacio ac yn cysylltu'r brif stryd gyda'r stryd ddeheuol gyda golygfa wych o byrth y bythynnod cofrestredig, rhifau 21 a 22. **13 14**





Ar ôl parhau heibio'r gyffordd yma ar y chwith mae tri bwthyn wedi eu huno â'i gilydd, Rhifau 4, 5 a 6. Mae'r rhain yn grŵp o fythynnod sydd wedi eu cadw'n dda ac wedi eu lleoli yn ddeniadol, gyda chwipiad gro ond mae ffasâd Rhif 4 wedi ei amharu gan ran o waith carreg moel. Yma hefyd ceir ffenestri bae talcennog nodweddiadol sy'n wynebu ymlaen a simneiau dominyddol. **15 16**





**12**
Adeiladwyd y byngalos o'r 1970au mewn llain wag oedd yn wreiddiol heb gael ei defnyddio.

**13**
Y lôn o'r gogledd i'r de a ddaw i ben ger wal y parc i'r gogledd.

**14**
Parhad o'r lôn yn edrych tua'r de, ac yn dod i ben ger Rhifau 21 a 22.

**15**
Mae Rhifau 4 a 5 wedi cadw at eu cynllun gwreiddiol, talcenni a gofod y ffenestri.

**16**
Mae Rhif 6 yn cynnwys gwaith carreg moel yn y ffasâd, sy'n wahanol i Rifau 4 a 5.

**17 18**
Mae Rhif 7 wedi cadw llawer o'r cynllun gwreiddiol a'i osodiad, gyda simnai, tâl meini a phortsh nodweddiadol yn amlwg.

**19**
Unwaith eto, mae Rhifau 8 a 9 wedi cadw llawer o'r nodweddion gwreiddiol, gyda phortsh pren a simneiau brics tal.


17


18

Gyferbyn, mae Rhif 7 sydd ar ei ben ei hun a thai pâr Rhifau 8 a 9 sydd i gyd wedi eu rhestru ac mewn cyflwr da heb eu newid. Mae'r tai allan i ffwrdd o'r stryd a heb eu hymestyn.

Yr addasiadau mwyaf amlwg yw bod rhai bariau gwydr ar goll ac mae estyniad i ddrychiad dwyreiniol Rhif 7, a adeiladwyd cryn amser cyn rhestru. Mae'r tri yn unllawr gydag atig, ac wedi cadw'r portshys pren gwreiddiol. Efallai bod Rhif 7 yn wreiddiol ar siâp L, ond os oedd, roedd yr estyniad dwyreiniol wedi ei adeiladu erbyn 1900. Simneiau carreg tal gyda dau gorn wedi eu gosod ar ongl, a photiau clai coch. Ffenestri casment dau a thri rhan, gyda phob rhan efo chwe phaen bach.

Mae rhifau 8 a 9 yn bâr, sy'n ffurfio cynllun 'T' gyda'r bae talcennog canolog yn ymwthio ymlaen ychydig. Simneiau ar ongl fel Rhif 7, ond mewn brics, nid carreg. **17 18 19**


19

Tu hwnt i Rif 4 mae gardd driongl ar wahân sy'n ffurfio triongl rhwng y brif stryd a'r cul-de-sac y tu ôl. Ni adeiladwyd erioed ar y llain yma. Gyferbyn mae pâr o fodurdai o'r ugeinfed ganrif.

Mae'r terfynau ar hyd y ffordd yma yn cynnwys yn bennaf waliau carreg isel, yn aml gyda gwrychoedd wedi eu rheoli y tu ôl iddynt. Mewn sawl achos mae'r adwyon wedi eu lledu i roi lle i geir.

Wrth droi i lawr y lôn gefn yma y tŷ cyntaf yw'r un mwyaf trawiadol yn y pentref, 'The Anchorage', tŷ Fictorianaidd mawr a adeiladwyd mewn arddull Gothig cynnil. Dywedir mai George Benmore a ddyluniodd y tŷ i'r prif goedwigwr. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu fod y tŷ yn ychwanegiad mwy diweddar i Landygái gan fod Benmore yn bensaer i Stad y Penrhyn o'r 1860au ymlaen. Gosodwyd y tŷ ar lain trionglog gyda wal y parc y tu ôl iddo ac adeilad allanol gyda'i dalcen yn wynebu'r ffordd. Mae'r tŷ yn cynnwys ffenestri dormer a baeau talcennog gyda phortsh ffrynt talcennog. Mae'r cyrn simnai mawr o frics gyda phedwar ffliw ar y pen. Mae gan y ffenestri byst ffenestri a chroeslathau, gyda ffenestri casment efo tri neu bedwar paen. Mewnosodwyd lintel concrid ym mhen y talcen i gynnal drws modurdy. Dyma'r unig newid gweladwy i'r eiddo ac nid yw'n un diweddar. **20 21**


20


21

Ger *The Anchorage* mae tŷ *Dryll Melyn* sydd mae'n ymddangos heb unrhyw nodweddion ac wedi ei osod yn ôl o'r ffordd. Mae'r tŷ yn wynebu'r parc ac i'r dwyrain o'r tŷ mae porth bwa gothig i gael mynediad i'r parc. Mae cefn y tŷ sy'n wynebu'r ffordd wedi ei rendro, ac nid oes unrhyw ffenestri na drysau. Mae dwy simnai, un ar y talcen gorllewin, ac un yn codi o'r wal i'r de.

Yn y cynllun mae'r tŷ yn fwy nag a welir o'r drychiad sy'n wynebu'r ffordd gyda dwy asgell gyfochrog yn mynd tuag at wal y parc. Y nodwedd fwyaf amlwg, o edrych arno o'r lôn, yw ystafell haul blastig sy'n ymwthiol. Mae lleoliad a chyfeiriad y tŷ yn awgrymu ei fod efallai yn gynharach na gosodiad pentref y stad, pan oedd ffordd yn flaenorol yn mynd o amgylch ymyl allanol wal y parc. **22**


22

Y tŷ olaf ar lôn y gogledd yw Pennard, byngalo dormer eithaf di-nod o ddiwedd yr ugeinfed ganrif gyda waliau wedi eu rendro. Mae wedi ei osod yn ôl fymryn ac mae ar ongl sgwâr i'r lôn gyda modurdy efo to fflat yn y ffrynt. Mae hyn yn ychwanegu at y gymysgfa o doeau fflat bach sy'n nodi diwedd y lôn, gydag ond yr adeilad allanol talcennog wedi'i beintio mewn lliw hufen tu ôl i Rif 6 yn gwneud yn iawn am hyn. **23**


23

**20**
*The Anchorage*, sy'n ymddangos i fod yn dŷ diweddarach a adeiladwyd i goedwigwr y stad. Dyma un o dai mwyaf y pentref.

**21**
Wal derfyn ac adeiladau allanol sy'n gysylltiedig gyda *The Anchorage.*

**22**
Mae *Dryll Melyn yn wynebu wal y parc, ac yn edrych i ffwrdd o'r prif bentref. Mae giât gerllaw yn arwain i'r parc, ac mae'n bosib fod un o'r garddwyr wedi byw yn y tŷ.*

**23**
Saif byngalo o'r 1970au ar ben y ffordd sy'n dilyn wal y parc, gan fynd i'r gorllewin o *The Anchorage*.

**24 25 26**
Mae Rhif 10 Llandygái yn wahanol i'r tai eraill yn y pentref, a gall fod wedi ymgorffori gweddillion un o'r tai a fodolai cyn adeiladu'r pentref. Mae'r simnai allanol yn ennyn diddordeb, a gall fod yn nodwedd gynnar. Mae'r portsh yn nodweddiadol o bentref y stad, ac mae'n bosib iddo gael ei ychwanegu pan adeiladwyd y pentref.

**27**
Mae'r ffordd a ledwyd y tu allan i'r ysgol yn safle i anheddle bach oedd yn dyddio cyn pentref y stad, a dyma lle roedd rhwydwaith y ffordd yn canolbwyntio arno yn wreiddiol. Mae'r byngalos modern yn weladwy ar ochr chwith y llun.

**28**
Sefydlwyd yr ysgol wreiddiol a thŷ'r ysgol gan deulu Pennant, sy'n dyddio cyn creu pentref y stad, ac fe'i hadeiladwyd i'r gogledd-orllewin o'r eglwys mewn arddull gothig.

O ddychwelyd i'r brif stryd ar y rhan olaf i'r dde ceir Rhif 10, tŷ sylweddol ar siâp L gyda thalcendo, sydd bellach wedi ei ymestyn i'r cefn. Mae'r wedd sy'n wynebu'r brif stryd yn ddi-nod heblaw am y canopi drws pren gwreiddiol. Nid oes unrhyw ffenestri yn y wedd yma ac mae'r unig fynediad drwy giât fach i'r ardd ar ochr dde'r tŷ. Mae'r prif ffasâd yn wynebu'r sgwâr, gyda phedair ffenestr chwe phaen gwreiddiol nad ydynt wedi eu gosod yn gymesur, ar y chwith. Mae draen lechi sydd wedi ei hadeiladu'n dda yn mynd o amgylch y ddwy wedd. O'i hamgylch mae wal gerrig isel gyda chapan trwchus llechi ac yn wreiddiol byddai rheiliau wedi bod yma. Nid oes unrhyw fanylion stad ar y tŷ ac efallai ei fod yn cynnwys gweddillion tŷ cynharach. Ar fap Stad y Penrhyn tua 1769 fe ymddengys bod yma fferm, neu o leiaf tŷ gydag adeiladau allanol yn y lleoliad yma. **24 25 26**


24


25


26

Yn wreiddiol roedd y tŷ ynghlwm â llain llawer mwy, parhaodd y llain yma a llain lai i'r de heb ei ddatblygu tan i ddau fyngalo bach modern (Bro Dawel a Pennant) gael eu hadeiladu yn yr 1970au. Mae'r rhain yn wynebu'r sgwâr ac yn edrych allan o'i le o ran graddfa a chymeriad. (Noder: mae'r byngalo i'r de yn weladwy yn llun 36 ar dudalen 17.)

nghornel GO y pentref, fel sgwâr y pentref. Mae'r llinellau gwyn sy'n dangos y mannau parcio braidd yn ymwthiol ond yn angenrheidiol oherwydd y traffig ysgol. Mae'r ardal hon yn gwasanaethu'r ysgol a'r eglwys ac yn darparu lle parcio preswyl ychwanegol. **27**


27

Yr adeiladau mwyaf gogleddol yn y sgwâr yw'r ysgol wreiddiol a hen dŷ'r ysgol. Mae'r rhain yn adeiladau rhestredig, ac yn wreiddiol cawsant eu hadeiladu yn 1813, cyn adeiladu'r pentref. Maent wedi eu hadeiladu mewn arddull gothig darluniaidd, gyda thalcendoeau llechi, a waliau chwipiad garw a rwbel. Mae ffenestr flaen yr ysgol yn ffenestr bren groeslathog gyda thri phostyn ffenestr a lliprynod. Ychydig iawn o newid fu i'r grŵp yma ers yr asesiad olaf o'r ardal. Mae'r modurdy concrid o flaen gardd y bwthyn yn amharu ar grŵp deniadol. Erbyn hyn mae'r neuadd yn ganolfan i'r gymuned. **28**


28




Drws nesaf i'r neuadd gan rannu terfyn o goed yw, mae Eglwys Tegai Sant.  Mae gan yr eglwys byst giât cain gyda giatiau pren yn arwain i rodfa o goed yw.  Ar hyn o bryd, mae'r giatiau hyn wedi eu cloi ac nid oes mynediad i'r eglwys na'r fynwent. Dylai'r cyfyngiad yma fod yn un dros dro, ac fe ddaw i ben pan fo pandemig Covid-19 wedi lleihau. Mae'r cyfan o'r fynwent, sydd yn fawr, ac wedi ei lleoli i'r de a'r gorllewin o'r eglwys, wedi ei chynnwys yn yr ardal gadwraeth.  Mae'r eglwys, a'r tŵr carreg dominyddol, yn chwarae rhan hollbwysig yng nghymeriad y pentref. **29**

I'r de o brif adwy'r eglwys mae'r terfyn yn cynnwys wal gynnal o gerrig gyda chapan llechi a rheiliau haearn ar y brig. **30**




Mae hyn yn parhau ar hyd y lôn fach sy'n mynd i lawr yr allt at brif ffordd Talybont. I'r dde mae'r wal gerrig wedi ei hatgyfnerthu yn drwm cyn agor i'r unig eiddo ar y lôn, Isycoed, a adeiladwyd mewn hen waith gro. Cafodd yr eiddo yma ei foderneiddio yn ddiweddar, gydag adain, gyda gwydr ar y llawr isaf, wedi'i ychwanegu i'r gogledd. Ar hyn o bryd mae yn ddau eiddo. **31**




Mae'r lôn yn parhau fel llwybr ceffyl, beicio a llwybr troed nes ei bod yn uno â ffordd Talybont drwy fynediad bwa a giât. Mae wal derfyn y fynwent yn codi'n raddol o ran uchder fel mae'r lôn yn mynd ar i lawr, cyn uno â therfyn y stad. Mae stribyn cerrig crwn yn rhedeg i lawr yr ochr ddwyreiniol. Mae sawl newid o ran arddull adeiladu ac uchder yn weladwy yn y rhan yma o'r wal. Mae'r lôn yn ddarluniadol ac yn ddeniadol, ac yn ffurfio rhan hanfodol o'r ardal gadwraeth a saif rhwng y fynwent a'r ysgol. Mae angen cadw'r waliau a'r stribyn cerrig crwn yn eu ffurf bresennol. **32**




**29**
Mae giatiau'r eglwys yn arwain at rodfa o goed yw bob ochr, a drws gorllewinol yr eglwys.

**30**
Rheiliau i Eglwys Tygái Sant.

**31**
Cafodd y tŷ yn Is y Coed ei ymestyn mewn ffordd sensitif yn ddiweddar, ac fe saif ger y ffordd sy'n arwain i'r de-ddwyrain at Bont Tal y bont.

**32**
Y lôn sy'n arwain at Bont Tal y Bont.

**33**
Mae'r ffens ddiogelwch o amgylch yr ysgol yn cuddio'r adeilad deniadol sydd y tu ôl iddi, gyda ffenestri tal a physt cerrig.

**34 35**
Mae'r wal derfyn i'r ysgol yn amgáu gardd fechan. Mae prif giatiau'r ysgol y tu draw wedi eu diogelu yn arw ac er iddynt gael eu hadeiladu yn eithaf sensitif, maent yn tynnu oddi wrth osodiad gweledol y rhan yma o'r pentref.




Os dychwelwn i'r sgwâr mae adeiladau'r ysgol i'r dwyrain tu ôl i wal o eiddew gyda choed ceirios ar hyd yr ymyl. Diogelir y gornel gan rwystr metel unffurf sy'n arwain cerddwyr at giât fach gardd yr ysgol sydd wedi'i diogelu. Mae gardd ddeiliog yr ysgol y tu cefn yn cael ei chuddio rhyw gymaint gan y ffens ddiogelwch werdd. **33**




Tu ôl i'r ardd yma mae'r ysgol a thŷ'r prifathro. Mae hwn yn adeilad Rhestredig Gradd II a adeiladwyd yn 1843 gan Stad y Penrhyn fel ysgol i fechgyn. Mae'r dyddiad adeiladu yn ei osod yn sicr yng nghyfnod creu'r pentref. Erbyn hyn mae yn ysgol gynradd i'r ardal. Fe'i hadeiladwyd mewn arddull gothig perpendicwlar, gyda ffenestri croeslathog efo pyst ffenestri a thalcen siâp L ar y pen dwyreiniol. Cafodd ei hymestyn yn y cyfnod modern. **34**




Wrth ymyl mae prif fynedfa'r ysgol gyda giatiau diogelwch. Er bod y rhain yn angenrheidiol ac wedi eu lliniaru i raddau gan y lliw gwyrdd tywyll, mae'r effaith yn cynyddu oherwydd nifer yr arwyddion, gwybodaeth, bathodynnau a'r baneri sydd ynghlwm â'r giatiau a'r rheiliau. **35**


36

Yn marcio diwedd y sgwâr, cyn ei fod yn mynd yn lôn gul, gellir gweld Rhif 11, tŷ deulawr gyda tho llechi a simneiau ar bob talcen. Ceir dwy ffenestr bob ochr a drws ffrynt yn y canol, tair ffenestr uwchben sy'n darparu arddull Sioraidd cyferbyniol i fwyafrif y bythynnod eraill sydd yn gyffredinol yn fwy gwerinol eu hymddangosiad. Mae estyniad unllawr gyda tho fflat ar y talcen gorllewinol. **36**

The small lane is leafy but unkempt to the left, with an untended plot adjoining it with a broken gate. The lane opens out to the garden of No.13 with the older less well-kept school buildings very visible behind. **37**


37

Nos. 13 & 14 located on the east side of the lane started as symmetrical semi-detached cottages, of 1½ storeys, with gabled dormer windows, and tall chimneys at either end. No 14 remains largely original, however a modern extension has been added on the north side of No 13, with oddly stepped gabled roof, the door now moved and squashed into the corner of the extension, and a large flat-roofed extension behind. The entrance off the road has been widened to allow vehicles both to enter and to park outside the extension. **38 39**


38


39

Mae Rhif 14 wedi cadw ei ffenestri gwreiddiol a'r portsh pren gwledig gyda'r gwaith pren wedi'i beintio yn goch a gwyn siriol. Dyma un o'r tai sydd wedi eu cadw orau yn y pentref. **40**


40

**36**
Mae'r tŷ cymesur deulawr ar ben y sgwâr yn wahanol i'r arddull mwy gwerinol, ac efallai nad oedd yn ffurfio rhan o'r datblygiad gwreiddiol. Mae'r byngalos modern yn weladwy ar y dde, a adeiladwyd yng nghyn ardd Rhif 10.

**37**
Y lôn sy'n arwain i'r de heibio'r ysgol a thuag at Rifau 15 ac 16.

**38 39 40**
Er bod Rhif 14 wedi cadw nifer o'i nodweddion gwreiddiol, yn cynnwys y portsh pren, mae Rhif 13 wedi cael ei addasu a'i ymestyn, sy'n tynnu oddi wrth ei adeiladwaith gwreiddiol.

**41 42 43**
Mae gan Rifau 15 ac 16 ffasâd carreg a simneiau tal, er bod y modurdy to fflat a'r lle parcio yn tynnu oddi wrthynt.

**44**
Ardal fechan agored a deniadol, sydd erioed wedi ei datblygu.


41

Mae ffens lechi yn rhannu Rhif 14 oddi wrth y pâr nesaf, dau fwthyn pâr, efallai mai unllawr oedd y rhain yn wreiddiol, ond gan ychwanegu ffenestri dormer to talcennog yn nes ymlaen. Mae'r wal ffrynt yn haenau bras o gerrig rwbel heb ei rendro, mae gan y waliau talcen chwipiad gro. To brig llechi, gyda simneiau bob pen ac un yn y canol. Mae Rhif 15 wedi ei adnewyddu yn ystod y misoedd diwethaf gan osod ffenestri plastig sydd yn siâp gwell, a drws sy'n fwy addas i gymeriad y pentref. Mae'r ardd ffrynt wedi ei hamgylchynu gan 'bastiche' o'r ffensys llechi traddodiadol, crawiau, gyda stribedi metel wedi eu bolltio drwy lechi sy'n sefyll gyda giât gywrain wedi ei pheintio yn arian. Cafodd yr ardd ffrynt hefyd ei lleihau i ganiatáu lle parcio i gar o dan y ffenestr gyntaf. Mae hyn yn newid yr olygfa yn llwyr o'r ffordd, yn enwedig wrth ei gyplysu gyda'r wal uwch o flaen Rhif 16. Mae'r bwthyn yma wedi ei ehangu yn arw, i'r cefn a'r ochr. Y tu hwnt i'r adwy mae ardal helaeth i barcio a throi gyda modurdy tu ôl iddo. Mae'r ddau fwthyn wedi eu cyflwyno yn dda iawn, mae gan Rif 16 ardd eithriadol sy'n ymestyn at ffordd Talybont ond mae'r gwreiddiau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf wedi eu colli. **41 42 43**



42


43

Wrth ddychwelyd i'r gyffordd gyda'r lôn sy'n rhedeg gyfochrog â'r brif stryd, nid yw'r llain yn y gornel ogleddol wedi ei ddatblygu ac mae wedi ei osod allan fel clwt i'r pentref. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae yn edrych braidd yn adfeiledig, gyda ffensys wedi cwympo, ond fe allai hyn fod o ganlyniad i ddigwyddiadau anghyffredin yn ystod y flwyddyn a achoswyd gan y pandemig. Mae un sedd yn bresennol ac mae bedwen arian a phisgwydden yno ond gellid gwneud mwy o'r ardal yma. **44**


44

Gyferbyn â'r ardal agored yma mae pâr o fythynnod unllawr, Rhifau 17 ac 18, un wedi ei rendro yn wyn, un carreg, y ddau gyda chwfl drws llechi, y ddau wedi eu hymestyn yn sylweddol i'r cefn. Mae gan Rif 16 hefyd estyniad ochr siâp L mawr, rendr lliw hufen, gyda ffenestri dormer brown dros ddrws modurdy arbennig o fawr.  Mae'r cyrn simnai tal o frics yn nodweddion gwreiddiol. **45 46**



45



46

Wrth ddychwelyd i ochr gogleddol y lôn, y tai nesaf yw Rhifau 19 a 20. Yn wreiddiol roeddent yn bâr o fythynnod ar ongl sgwâr i'w gilydd. Mae talcen Rhif 20 yn wynebu'r ffordd, gyda blaen rhif 19 yn wynebu'r ffordd. Yn ddiweddar peintiwyd yr olaf yn wyn ar y ddau dalcen. Cafodd y portsh, sydd ychydig allan o gymeriad, ei addasu gyda threlis gwyn. Mae'r modurdy hefyd wedi ei beintio yn wyn, ac mae hyn i gyd yn ychwanegu gwelliant cosmetig i'w olwg. **47**



47

Yn anffodus, mae Rhif 19 wedi ei newid yn sylweddol gydag estyniad to fflat ar siâp L yn ffurfio cwrt ochr. Cafodd yr adwy ei ymestyn i gynnwys cwrt parcio i geir gyda slabiau llwyd golau anaddas. Yn anffodus, mae'r pwyslais ar arwynebau llwyd trwm, gwastraff llechi a'r slabiau a ddefnyddiwyd fel deunydd arwyneb, ffenestri wedi eu peintio yn ddu a ffenestri Velux â'r effaith o wneud i'r tŷ edrych fel ei fod yn dominyddu'r llain. **48**



48

**45 46**
Mae Rhifau 17 ac 18 yn fythynnod unllawr gyda simneiau tal nodweddiadol a phortshys bach croes ac agored.

**47**
Mae Rhif 20 yn un o bâr o fythynnod, sydd wedi cadw ei gynllun gwreiddiol a'r simnai.

**48**
Mae Rhif 19 yn atodol i Rif 20 ac ar ongl sgwâr iddo, ac wedi cael ei newid yn sylweddol.

**49 50**
Pâr o fythynnod deniadol (rhestredig), gyda blaen carreg a dormeri talcennog o garreg a bae talcennog canolog gyda drysau. Yn wahanol i'r arfer mae gan y drysau a'r ffenestri amgylchynau calchfaen. Simneiau tal ar y pen. Mae estyniad wedi ei ychwanegu ar bob talcen.

**51**
Mae'r wal chwipiad gro yn anghydnaws ac yn wahanol i'r waliau cerrig a'r gwrychoedd a welir mewn mannau eraill.

Ar ochr ddeheuol y lôn mae pâr o fythynnod cymesur, Rhifau 21 a 22. Mae'r ddau yn adeiladau rhestredig gradd II. Maent wedi eu hadeiladu o haenau bras o gerrig rwbel gyda drws math 'ashlar' ac amgylchynau ffenestri. Mae'r ddau dŷ mewn cyflwr da ac ychydig iawn sydd wedi newid ers yr adroddiad blaenorol.  Er hynny, mae wal yr ardd o flaen yr ardal barcio i'r ddau dŷ wedi ei thynnu gan greu mynedfa letach ar gyfer parcio. **49 50**


49

Wrth barhau i lawr y lôn mae'r olygfa i'r dde yn cael ei dominyddu gan gefn y pedwar tŷ mwy diweddar sy'n wynebu'r brif stryd. Mae gan y tŷ cyntaf ffens bolion dal o bren meddal wedi'i gosod y tu ôl i wal y perimedr; gwelir wal chwipiad gro annymunol eto y tu ôl i wal wreiddiol isel. Mae'r ddau dŷ olaf wedi eu ffinio gan wrychoedd a llwyni, sydd yn eu cuddio yn fwy effeithiol. **51**


51


50


52

Mae'r pâr olaf o fythynnod, i'r de o'r lôn, wedi newid yn arw ac wedi eu gorymestyn. Mae gan Rif 23 bortsh cywrain, modern o bren a ffenestri pren a latis. Mae Rhif 24 yn ymddangos wedi ei gyflwyno yn well oherwydd y gwaith paent gwyn, ffenestr fae wreiddiol a gwaith pren glas golau. Er hynny, mae tŷ arall wedi ei wasgu i'r ardd. **52 53**


53


54

Mae'r lôn yn mynd allan drwy fynediad i gerddwyr i ffordd Talybont. Mae hyn wedi ei adeiladu yn dda gyda wal y ffordd yn gorgyffwrdd â wal y pentref gyda mynediad i gerddwyr rhwng y ddwy. Mae wal y pentref a'r pafin wedyn yn parhau ymlaen at y brif fynedfa. **54**

**52 53**
Mae gan y tai hyn doeau brig llechi serth a simneiau uchel, gyda'r drysau yn eu lleoliadau gwreiddiol, er bod estyniadau i'r ddau.

**54**
Y lôn sy'n mynd allan i ffordd Tal y Bont. Mae wedi ei hamgylchynu gan waliau cerrig, ac mae gan un gapanau llechi fertigol.

Golygfa Arlunydd o'r pentref, dyddiedig 1855.
Cyhoeddwyd gan Newman & Co.



# 5. Gwelliannau a argymhellir

Mae Llandygái yn lle deniadol a dymunol i fyw, ac yn amlwg mae'r trigolion yn falch o gael edrych ar ôl y pentref a'i gadw mewn cyflwr da. Er hynny, mae ardaloedd y gellid eu gwella.

Mae ceblau trydan a pholion ffôn yn effeithio ar y dirwedd a byddai ymdrechion i osod y gwasanaethau o dan y ddaear yn gwella golwg y pentref.  Mae goleuadau stryd yn fuddiol, ac yn well na'r 'pastiche' o osodiadau cyfnod sy'n bresennol mewn mannau eraill ond mae potensial i wella'r rheiliau dur sy'n ffurfio ardal glustogi y tu allan i'r giât fach sy'n mynd i mewn i ardd yr ysgol.  Soniwyd am y rhain yn yr adroddiad blaenorol ond mae'r ffens ddiogelwch o amgylch y cyfan o flaen adeiladau'r ysgol yn newydd ac yn creu 'geto' yng nghanol y sgwâr. Er ei bod yn anodd ei hosgoi mae'r ffens yn sicr yn ymwthiol.

Ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd gan amryw o drigolion mewn ardaloedd cadwraeth am arwyddocâd eu hardal. Nid yw hyn mor wir am Landygái, gan fod yno gyngor cymuned gweithgar, ond mae hyn yn dal yn berthnasol. Gall trigolion hefyd fod heb ymwybyddiaeth o arwyddocâd ychwanegol byw mewn eiddo wedi'i restru. Mae'n ymddangos mai ychydig neu ddim gohebiaeth a fu gyda'r trigolion ynglŷn â'r ardal gadwraeth ac yn aml ni chafodd yr ohebiaeth wreiddiol ei throsglwyddo i berchnogion mwy diweddar. Arweiniodd hyn at fyrdd o estyniadau anffodus, ffenestri a drysau amhriodol a diffyg dealltwriaeth o gymeriad hanfodol yr ardal. Dylid gwneud pob ymdrech i roi gwybod i drigolion am yr ardal gadwraeth a'r eiddo gan orfodi'r syniad ei fod yn endid go iawn a chadarnhaol gyda manteision i bawb.

Dylai'r perchnogion gael canllaw clir ynglŷn â beth sy'n dderbyniol mewn ardal gadwraeth, yn enwedig o ran drysau, ffenestri, gwteri a deunyddiau. Yn y rhan fwyaf o achosion cafodd y ffenestri eu haddasu cyn i'r ardal gael ei dynodi ond ers hynny mae llawer o'r ffenestri yma wedi eu newid, yn aml sawl gwaith.     Mae hwn yn gyfle i dywys perchnogion eiddo i fathau amgen, mwy derbyniol.  Er na fydd yn bosib mynnu bod perchnogion yn newid ffenestri pren gyda fersiynau newydd yr un fath, gall argymhellion barhau i fod yn ymarferol o ran cyfforddusrwydd, gwariant a beth sydd ar gael.

Mae cadw maint a threfn yr agoriadau ffenestri gwreiddiol cyn bwysiced i edrychiad yr eiddo a'r deunyddiau y cawsant eu gwneud ohonynt, ond yn aml nid yw perchnogion yn ymwybodol o arwyddocâd eu dewisiadau.

Dylid hefyd monitro newid waliau terfyn, adwyon, arwynebau caled a modurdai gan wneud awgrymiadau. Dylai perchnogion newydd dderbyn canllaw cyn iddynt ddechrau gwneud newidiadau.

Y ffordd orau i ddarparu canllaw yw ar ffurf canllaw cynllunio atodol perthnasol wedi ei ddiweddaru.

Byddai grantiau i gefnogi newidiadau priodol hefyd yn gymhelliant tuag at newid fydd o fudd. Mae hwn eto yn faes arall lle fo cydweithrediad rhwng y cyngor a'r gymuned yn hanfodol.

# 6. Newidiadau a argymhellir i'r Ardal Gadwraeth

Mae pentref Llandygái, fel y gwnaed yn eglur yn y gwerthusiad cynharach, yn llunio endid cyflawn, a ddiffinnir gan dir parc a waliau sy'n mynd o'i amgylch.  Mae'r tai ar ochr arall ffordd dyrpeg Talybont a bythynnod cofrestredig Tre-felin yn sefyll y tu allan i'r ardal yma, er eu bod yn rhan o stad cartref Castell Penrhyn, ac yn dylanwadu ar osodiad y pentref. Mae nifer o'r anheddau cyfagos wedi eu diogelu fel adeiladau rhestredig ac maent wedi cael eu hystyried yn flaenorol fel estyniad i'r ardal gadwraeth. Cafodd hyn ei wrthod ac nid yw'n ymddangos fod unrhyw sail i ail-ymweld â'r penderfyniad hwn.

Nid oes unrhyw newidiadau a argymhellir i ffiniau'r ardal.

# 7. Ffynonellau

## Sylfaenol

John Llewellyn Williams, cyf pers, 2021

Map Arolwg Ordnans 1900

Map Stad y Penrhyn tua 1768

Map y Degwm Llandygái, 1840

## Eilaidd

Anhysbys., *Assessment of Llandygai Conservation Area*, Heb ddyddiad

Cadw, Disgrifiadau o Adeiladau Rhestredig

Cadw, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn: *Register of Landscapes, Parks and Gardens of Special Historic Interest in Wales*, 1998

Haslam, R., Orbach, J., Voelcker, A., *The Buildings of Wales: Gwynedd*, 2009

Hughes, H. a North, H. L., *The Old Churches of Snowdonia*, 1924

Hyde-Hall, E., *A Description of Caernarvonshire (1809-1811),* Cofnod Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon Cyfres Rhif 2, 1952

Jones, P. E., *'The Wyatts of Lime Grove, Llandygai'*, Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 42 (1981), 81-117

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, *Canllaw i Gastell Penrhyn*, 1991

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535. Ffacs: 01248 370925. ebost: gat@heneb.co.uk

REGISTERED CIfA ORGANISATION